

Disgrifiad o Swydd Mentor Ymestyn yn Ehangach

Mae Ymestyn yn Ehangach* yn chwilio am fentoriaid sy'n fyfyrwyr cyfredol a all rannu eu gwybodaeth a'u profiad gyda'r pobl ifanc rhwng 16 - 19 oed, sy'n dal mewn addysg. Bydd y mentor yn cynnig cymorth ac arweiniad i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus i'w cefnogi i wireddu eu huchelgeisiau.

Rydym yn chwilio am fentoriaid sy'n gyfeillgar, yn agos-atoch, ac yn ddibynadwy. Mentoriaid sy'n angerddol i ysbrydoli pobl ifanc trwy ymgysylltu'n rheolaidd, trwy ddarparu a rhannu gwybodaeth.

Ymrwymiad Mentor:

- Ymrwymo i fentora rhwng 3- 5 o bobl ifanc
- Mewngofnodi i'r platfform mentora diogel ac ymateb i negeseuon (tua 30 munud i 1 awr 30 munud yr wythnos)

Manteision bod yn fentor:

- Telir y Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Cyrsiau hyfforddiant cyflogedig dewisol fel cymorth cyntaf iechyd meddwl, hyfforddiant wedi'i lywio gan drawma, diogelu a hyfforddiant pwrpasol arall.
- Hyblygrwydd i gefnogi person ifanc o amgylch eich holl ymrwymadau presennol.
- Datblygu eich hyder.
- Profiad o weithio'n uniongyrchol gyda pherson ifanc.
- Datblygu eich CV
- Cefnogaeth a chynghor gan dîm Ymestyn yn Ehangach a Brightside.

I fod yn gymwys, rhaid i chi:

- Wedi cofrestru fel myfyriwr Israddedig mewn prifysgol neu Goleg yng Nghymru
- Eisoed â DBS dilys heb fod yn fwy na 3 blwydd oed sydd wedi'i weinyddu drwy eu sefydliad neu ymrwymo i gael gwiriad DBS sydd i'w wirio cyn i'r mentora ddechrau.

*Mae Ymestyn yn Ehangach yn rhaglen a ariennir gan CCAUC sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad i addysg uwch gan bobl o grwpiau a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol ledled Cymru gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl sy'n byw o fewn y manau yn y 40% isaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a gofalwyr.